

CYMDEITHAS TAI WALES & WEST

ADRODDIAD I'R BWRDD – 17 MAI 2018

COMISIYNYDD Y GYMRAEG – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Iaith Gymraeg Tai Wales & West (WWH) ym mis Medi 2010, ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (WLB) yn dilyn hynny, ym mis Rhagfyr 2010.
- 1.2 Mae gofyn cyflwyno diweddariad blynyddol i Fwrdd WWH ac i Gomisiynydd y Gymraeg (WLC), a ddisodlodd WLB yn 2012. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018. Mae hyn yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan WLC ac mae'n cyd-fynd â'r hyn sy'n ofynnol gan yr holl gymdeithasau tai eraill yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr holl weithgareddau ar draws y Gymdeithas, ond nid yw'n cynnwys yr is-gwmnïau.

2.0 Sgiliau Cymraeg

- 2.1 Ar hyn o bryd, mae gan WWH 67 aelod o staff sy'n siarad Cymraeg, y mae lefel eu rhuglder yn amrywio, a Chymraeg yw mamiaith dros 30 aelod o staff.
- 2.2 Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Cymraeg, gofynnwyd i bob aelod o staff gwblhau hunanasesiad ynghylch lefel eu rhuglder yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Cofnodwyd y ddau ar wahân ar system AD y Gymdeithas, Cascade. Trwy gofnodi'r data mewn porth canolog, gall staff ddiweddarau lefelau rhuglder wrth iddynt newid. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo wrth adnabod staff sy'n hyderus neu sy'n gallu cynorthwyo mewn ffyrdd ymarferol megis cyfieithu neu ddehongli.
- 2.3 Mae Bwrdd WWH yn cynnwys un siaradwr Cymraeg rhugl, ynghyd â nifer o aelodau Bwrdd y mae lefel eu gwybodaeth yn amrywio.

3.0 Hyfforddiant Cymraeg

- 3.1 Mae chwe aelod o staff wedi bod yn dysgu Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys y Prif Weithredwr. Mae pump o'r rhain wedi bod yn mynychu dosbarthiadau nos ac mae'r Prif Weithredwr yn parhau i fanteisio ar adnoddau amrywiol gan gynnwys mynychu cyrsiau dwys, apiau a llyfrau.
- 3.2 Mae nifer o aelodau'r Bwrdd (gan gynnwys y Cadeirydd) yn dysgu Cymraeg hefyd, trwy gyfrwng cymysgedd o ddsbarthiadau, apiau a chyfryngau eraill. Hysbyswyd pob aelod o'r ffaith y bydd WWH yn eu cynorthwyo i ddysgu Cymraeg.
- 3.3 Er mwyn hyrwyddo gweithlu dwyieithog, cychwynnwyd ar adolygiad o'r adran Gymraeg bresennol ar fewnrwyd y Staff. Y nod yw darparu manylion mentoriaid,

adnoddau defnyddiol, gweithgareddau a chyfleoedd er mwyn cynorthwyo i gynyddu lefelau hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

- 3.4 Mae WWH yn cefnogi'r cam o ddysgu a datblygu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg, ac yn ychwanegol i barhau ymrwymiad y Gymdeithas i gynorthwyo dysgwyr mewn amgylchedd traddodiadol, bydd dysgwyr newydd a phresennol yn gallu ymuno â'r peilot 6 mis newydd gyda 'Dweud Rhywbeth yn Gymraeg'. Cwrs ieithyddol ar-lein yw hwn sy'n addo y bydd pob dysgwr ymroddedig yn siaradwr Cymraeg hyderus cyn pen chwe mis gyda chymorth tasgau ar-lein wythnosol a galwadau fideo grŵp. Bydd y peilot yn cychwyn yn ystod 2018 ac fe'i ariannir gan WWH, a fydd yn parhau i dalu am weithgarwch dysgu Cymraeg mewn lleoliad traddodiadol o hyd hefyd yn ôl y galw.

4.0 Hyrwyddo'r Gymraeg

- 4.1 Yn ystod y cyfnod y rhoddir sylw iddo yn yr adroddiad hwn, bu nifer o achosion pan hyrwyddwyd y Gymraeg, gan gynnwys Cynhadledd Staff wedi'i seilio ar thema a oedd yn ymwneud â'r Gymraeg, Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod "Shwmae Su'mae" – digwyddiad cenedlaethol a gynhelir ar draws Cymru er mwyn hyrwyddo'ch defnydd o'ch Cymraeg. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- Diwrnod gwisgo mewn ffordd anffurfiol yn seiliedig ar thema coch
- Cwis Dydd Gŵyl Dewi
- Posteri yn nodi ffeithiau a gwybodaeth am draddodiadau a hanes Cymru
- Cyhoeddwyd rhestr o siaradwyr Cymraeg ac anogwyd y staff i roi cynnig ar ambell ymadrodd
- Sleidiau powerpoint dwyieithog yn ystod cynhadledd a sioeau teithiol staff
- Adroddiad blynyddol a chyfrifon dwyieithog am y tro cyntaf
- Cynllun busnes dwyieithog

- 4.2 Mae mentrau eraill er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn cynnwys:

- Mae'r adolygiad o'r dudalen Gymraeg ar fewnwyd WWH yn parhau, sy'n cynnig rhywle i bobl ryngweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a rhoi cynnig ar eu sgiliau.
- Cwblhawyd adolygiad o brotocolau mewnol ac allanol am y Gymraeg, ac fe'i lanswyd yn ystod y sioeau teithiol i staff ym mis Medi 2017.
- Cynigir bathodynau a laniardiaid laith Gwaith i bob aelod o staff sy'n dysgu neu sy'n rhugl er mwyn sicrhau y gall pobl eu hadnabod a chychwyn sgwrs gyda nhw yn Gymraeg.
- Deunydd briffio dwyieithog gan y Prif Swyddog Gweithredol, sy'n cynnig diweddariadau o bryd i'w gilydd am ddatblygiadau deddfwriaethol a datblygiadau y gallent effeithio ar y ffordd y mae'r Gymdeithas yn darparu gwasanaethau yn allanol ac yn fewnol.
- Cynhyrchir fersiwn dwyieithog o gylchgrawn InTouch ar gyfer preswylwyr, ac fe'i ddosbarthir i'r holl breswylwyr yng Ngorllewin Cymru
- Mae adolygiad o'r cynnwys Cymraeg yn y rhaglen ymsefydlu gorfforaethol yn parhau ar ôl cwblhau'r adolygiad o brotocolau mewnol.

5.0 Cyfathrebu yn Gymraeg

- 5.1 Mae 47 o breswylwyr wedi nodi eu bod yn dymuno cyfathrebu gyda WWH yn Gymraeg, gan nodi a ydynt yn dymuno i hyn fod yn ysgrifenedig, ar lafar neu'r ddau.
- 5.2 Mae WWH yn parhau i gasglu gwybodaeth ynghylch dewis iaith fel rhan o'r gweithgarwch proffilio preswylwyr. Adolygwyd yr holiadur proffilio preswylwyr yn ystod 2017 ac ehangwyd y cwestiynau ynghylch dewis iaith ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig a llafar yn y Gymraeg er mwyn cynnwys hunanasesiad o ruglder preswylwyr ar denantiaeth. Defnyddir yr holiadur ar draws y Gymdeithas ar hyn o bryd, a chofnodir gwybodaeth. Mae data a gesglir ynghylch dewisiadau o ran cyfathrebu ysgrifenedig a llafar yn y Gymraeg ar gael i'r holl staff ei weld ar Qlikview. Mae unrhyw ohebiaeth y bydd WWH yn ei hanfon yn cael ei hanfon yn newis iaith y preswlydd (pan fo holiadur proffilio preswlydd wedi cael ei gwblhau, neu pan gasglwyd manylion ynghylch dewis iaith), ac eithrio'r ffaith bod gohebiaeth yn y Gorllewin yn parhau i fod yn ddwyieithog a bydd hyn yn parhau nes y caiff gwybodaeth lawn ynghylch dewis iaith ei sicrhau. Yn rhifyn y gwanwyn 2018 o InTouch, anogwyd preswylwyr i gysylltu â WWH os byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth yn Gymraeg neu os byddant yn gofyn am wybodaeth yn Gymraeg.
- 5.3 Mae WWH yn parhau i groesawu galwadau a chyfathrebu yn Gymraeg. Er bod y niferoedd sydd wedi manteisio ar hyn ar brif rhif cyswllt WWH (0800 052 2526) wedi bod yn isel iawn yn hanesyddol, mae'r niferoedd wedi cynyddu ers y dargyfeiriwyd llinell ffôn swyddfa'r Gorllewin i brif linell ffôn WWH ym mis Gorffennaf 2017. Fodd bynnag, mae'n werth nodi mai 1.4% yn unig o'r holl alwadau y deliwyd â nhw yn ystod y cyfnod oedd yn alwadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Er mis Gorffennaf 2017, caiff pob galwad a wneir gan unigolion sy'n dewis y Gymraeg, eu dargyfeirio i siaradwyr y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt, yn Swyddfa Gorllewin Cymru. Pan fydd pobl yn ffonio prif rif ffôn WWH, bydd y neges gyntaf yn ddwyieithog ac yn gofyn iddynt bwysu botwm un os ydynt yn dymuno siarad yn Gymraeg neu aros ar y linell am wasanaeth Saesneg. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, deliwyd â 1498 galwad trwy'r dewis Cymraeg, o'i gymharu â 445 galwad yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017.
- 5.4 Mae WWH yn manteisio ar wasanaeth cyfieithwyr Cymraeg proffesiynol yn ogystal â staff dynodedig yn swyddfa Gorllewin Cymru. Ar hyn o bryd, mae 1,297 o breswylwyr ar y rhestr bostio er mwyn cael copïau dwyieithog o InTouch. Mae fersiwn Cymraeg o InTouch ar gael ar wefan WWH hefyd. Gellir darllen fersiwn Cymraeg o wefan WWH trwy gyfrwng dewis cyfieithu gan Google, sy'n golygu y gellir cyfieithu'r wefan i nifer o ieithoedd eraill hefyd. Mae'r gwaith i adolygu'r wefan yn parhau ac ar ôl ei gwblhau, bydd ymwelwyr yn gallu dewis darllen y fersiwn Cymraeg neu Saesneg. Disgwylir y bydd y wefan ddwyieithog yn fyw erbyn diwedd 2018. Ar hyn o bryd, mae'r wefan yn cynnwys tudalen sy'n esbonio ymrwymiad y Gymdeithas i'r iaith Gymraeg ac sy'n cynnwys dolen i ddogfen y Cynllun Iaith Gymraeg presennol. Gellir gweld fersiynau Cymraeg a Saesneg statig o'r dudalen hon. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a diwedd mis Mawrth 2018, edrychwyd ar y fersiwn Saesneg

ohoni 59 gwaith gan ymwelwyr allanol, ac edrychwyd ar y fersiwn Cymraeg ohoni 17 gwaith gan ymwelwyr allanol.

- 5.5 Er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n galw heibio i'r dair swyddfa yn ymwybodol o'r ffaith y gallant ddewis cyfathrebu â ni yn Gymraeg, dangosir posteri ym mhob derbynfa sy'n eu hysbysu o hyn.
- 5.7 Cwblhawyd adolygiad o brotocolau mewnol ac allanol ac fe'i lanswyd yn ystod y sioe deithiol i staff ym mis Medi 2017. Mae'r protocolau, y maent ar gael ar fewnwyd y staff, yn cynnig arweiniad ynghylch sut y mae WWH yn darparu Gwasanaethau Cymraeg yn fewnol ac yn allanol. Roedd y protocolau wedi ystyried adolygiad o'r holl arferion mewnol ac allanol, gan gynnwys archwiliad sgiliau a dewis iaith, recriwtio, dogfennaeth sy'n ymwneud ag AD a gweithdrefnau.
- 5.8 Mae'r holl arwyddion yn swyddfeydd WWH yn ddwyieithog.

6.0 Cwynion

Ni chafwyd unrhyw gwynion a oedd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod.

7.0 Diweddariad am weithrediad Safonau'r Gymraeg

- 7.1 Bydd cynlluniau Llywodraeth Cymru am Fil y Gymraeg yn diwygio'r broses o lunio a gorfodi Safonau'r Gymraeg trwy ddisodli Comisiynydd y Gymraeg gyda Chomisiwn y Gymraeg. Ym mis Awst 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phapur gwyn, 'Taro'r cydbwysedd iawn: Cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg'. Roedd y papur gwyn yn canolbwyntio ar yr elfennau deddfwriaethol a strwythurol sy'n gysylltiedig â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, er mwyn cyflawni'r weledigaeth a nodwyd yn Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017. Mae Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg yn nodi dull hirdymor Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r targed o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'w hymgyngoriad am y cynigion am Fil y Gymraeg ar 24 Ionawr 2018. Nododd Llywodraeth Cymru y byddai'r ymatebion yn cael eu hystyried er mwyn helpu i gyfrannu at y polisi.
- 7.2 Ceir diffyg eglurder ynghylch yr amserlenni er mwyn cyflwyno safonau ar gyfer LCCiaid (y cânt eu cynnwys yn Rownd 3). Er hyn, mae dilyniant gweithrediad y safonau yn parhau, fel y cyflwynwyd yn Safonau'r Gymraeg drafft ar gyfer y Sector Iechyd (y cawsant eu cynnwys yn Rownd 2) ym mis Chwefror 2018. Mae arwyddion yn awgrymu na chaiff y safonau ar gyfer LCCiaid eu gweithredu cyn 2019 ac y rhoddir cyfnod i LCCiaid er mwyn iddynt gydymffurfio â'r safonau. Bydd y Gymdeithas yn parhau i fonitro datblygiadau ynghylch sut y gallai hyn effeithio ar y Gymdeithas.

8.0 Cynllun Gweithredu

Mae cynllun gweithredu ar gyfer 2018/19 ynghlwm yn Atodiad 1. Dylid nodi y gallai WLC ofyn am rai ychwanegiadau a/neu ddiwygiadau i'r cynllun gweithredu. Er bod hyn yn annhebygol, gallai'r cynllun gweithredu newid yn sylweddol os cyflwynir Safonau'r Gymraeg newydd mewn perthynas â darparwyr tai cymdeithasol yn ystod cyfnod y cynllun gweithredu ac os felly, cyflwynir adroddiad pellach i'r Bwrdd.

9.0 Argymhellion

ARGYMHELLIR y dylai'r Bwrdd:

- i. Nodi'r adroddiad
- ii. Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu, yn unol â sylwadau Comisiynydd y Gymraeg

Stuart Epps
Cyfarwyddwr Adnoddau

9 Mai 2018

Cynllun Gweithredu yr Iaith Gymraeg 2018/19

Gweithredu	Tasg	Dyddiad targed	Grŵp sy'n gyfrifol
Hyfforddiant yr Iaith Gymraeg	Parhau i hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu Cymraeg	Awst 2018, er mwyn cyd-fynd â gweithgarwch cofrestru ar gyfer dosbarthiadau nos a Lansiad peilot 'Dweud Rhywbeth yn Gymraeg'	Tîm Dysgu a Datblygu
	Annog yr holl gyflogeion i gymryd rhan ac i ddysgu Cymraeg	Awst 2018	Tîm Dysgu a Datblygu
	Lansio a pheilota cyfleuster hyfforddiant Cymraeg newydd Dweud Rhywbeth yn Gymraeg	Awst 2018	Tîm Dysgu a Datblygu
	Cwblhau adolygiad o'r dudalen ar y fewnwyd er mwyn cynorthwyo gweithgarwch dysgu Cymraeg.	Awst 2018	Gwasanaethau Corfforaethol
Sgiliau Cymraeg	Nodi Mentoriaid i gynorthwyo mewn ffyrdd ymarferol, megis datblygu a chynorthwyo'r rhai sy'n dysgu Cymraeg	Awst 2018	Tîm Dysgu a Datblygu
Hyrwyddo'r Gymraeg	Creu rhaglen o ddigwyddiadau ar draws y Gymdeithas, a fydd yn cynnwys Diwrnodau Cymraeg yn y Gwaith ar ddiwrnod "Shwmae Su'mae" ac ar 1 Mawrth 2019 er mwyn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y Gymdeithas.	Mai 2018	Gwasanaethau Corfforaethol
	Trefnu ciniawau Cymraeg misol er mwyn codi arian ar gyfer Ras yr Iaith (sy'n darparu grantiau ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg)	Mai 2018	Gwasanaethau Corfforaethol
	Cefnogi a chymryd rhan yn Ras yr Iaith	Gorffennaf 2018	Gwasanaethau Corfforaethol
	Adolygu cynnwys Cymraeg yn y rhaglen ymsefydlu gorfforaethol ar ôl cwblhau'r adolygiad o brotocolau mewnol	Parhaus	Tîm Dysgu a Datblygu
	Cwblhau adolygiad o wefan WWH gan gynnwys datblygu gwefan ddwyieithog	Rhagfyr 2018	Tîm Cyfathrebu a CC

	Parhau i roi diweddariadau i staff am Fil y Gymraeg newydd, a datblygiadau y gallent effeithio ar y ffordd y mae'r Gymdeithas yn darparu gwasanaethau yn fewnol ac yn allanol trwy gyfrwng deunydd briffio y Prif Swyddog Gweithredol	Parhaus	Gwasanaethau Corfforaethol
Dewis Iaith	Parhau i gasglu data proffilio preswylwyr gan ddefnyddio'r ffurflen ddiwygiedig ar draws y Gymdeithas, a chofnodi'r wybodaeth er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau yn newis iaith y preswylwyr	Parhaus	Tîm Dewisiadau Tai/Swyddogion Tai/AMO's a Gwasanaethau Corfforaethol
	Cofnodi a monitro'r ceisiadau i siarad Cymraeg dros y ffôn	Parhaus	TGCh
Adrodd am y Gymraeg	Adrodd i'r Bwrdd bob blwyddyn	Ebrill 2019	Gwasanaethau Corfforaethol
Monitro	Ystyried canllawiau a rhestrau cyfeirio a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2018/19 mewn perthynas â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg er mwyn asesu pa mor berthnasol ydynt i WWH a chydymffurfiaeth gyda Chynllun yr Iaith Gymraeg WWH	Ebrill 2019	Gwasanaethau Corfforaethol
Cynllun yr Iaith Gymraeg	Adolygu Cynllun yr Iaith Gymraeg WWH a gyflwynwyd i WLC ar gyfer y cyfnod hwn, a'i ddiweddarau yn ôl yr angen yng ngoleuni'r protocol mewnol newydd a gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn dogfennau mewnol ac allanol	Medi 2018	Gwasanaethau Corfforaethol